***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 2

(Cyflwynwyd gan adran 40)

# NEWIDIADAU RHEOLEIDDIEDIG

## RHAN 1

## POB YSGOL A GYNHELIR

1 Mae paragraffau 2 a 3 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Trosglwyddo safle*

2 Trosglwyddo ysgol i safle neu safleoedd newydd oni fyddai prif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd newydd o fewn 1.609344 cilomedr (un filltir) o brif fynedfa'r ysgol ar ei safle neu safleoedd presennol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I4** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Ysgolion rhyw gymysg ac ysgolion un rhyw*

3 (1) Newid a wneir i ysgol fel a ganlyn—

(a) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw, neu

(b) bod ysgol a oedd yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw yn derbyn disgyblion o un rhyw yn unig.

(2) At ddibenion y paragraff hwn mae ysgol i'w thrin fel un sy'n derbyn disgyblion o un rhyw yn unig os yw trefn derbyn disgyblion o'r rhyw arall—

(a) yn gyfyngedig i ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol; a

(b) heb fod yn fwy na 25% o nifer y disgyblion yn y grwp oedran a dan sylw sydd fel arfer yn yr ysgol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 2 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I6** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

## RHAN 2

## POB YSGOL A GYNHELIR AR WAHÂN I YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

4 Mae paragraffau 5 i 8 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 2 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I8** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Ystod oedran*

5 (1) Newid oedran isaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy.

(2) Newid oedran uchaf y disgyblion y darperir addysg iddynt yn arferol yn yr ysgol gan flwyddyn neu fwy os yw'r ysgol, cyn ac ar ôl y newid, yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol ond heb fod yn darparu addysg sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Atod. 2 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I10** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Darpariaeth chweched dosbarth*

6 (1) Cyflwyno'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sy'n darparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

(2) Terfynu'r ddarpariaeth o addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol mewn ysgol sydd i barhau i ddarparu addysg lawnamser sy'n addas i ofynion disgyblion mewn oedran ysgol gorfodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Atod. 2 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I12** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Cyfrwng iaith – addysg gynradd*

7 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—

(a) ysgolion cynradd,

(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac

(c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg gynradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu dosbarth o ddisgyblion mewn **[**[F1]grwp oedran (neu grwpiau oedran)**][**[F1]grŵp blwyddyn perthnasol (neu grwpiau blwyddyn perthnasol)**]** mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 1 isod, ac os cynigir newid addysgu'r dosbarth cyfatebol o ddisgyblion yn y **[**[F2]grwp oedran hwnnw (neu'r grwpiau oedran hynny)**][**[F2]grŵp blwyddyn perthnasol hwnnw (neu'r grwpiau blwyddyn perthnasol hynny)**]** fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

(3) Yn y paragraff hwn—

(a) **[**[F3]ystyr "grŵp blwyddyn perthnasol" yw grŵp blwyddyn nad yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion eto wedi cwblhau'r flwyddyn ysgol y maent yn cyrraedd 11 oed ynddi;**]**

(b) nid yw cyfeiriad at addysgu dosbarth o ddisgyblion yn cynnwys gwasanaeth ysgol na gweithgareddau eraill mewn ysgol a gynhelir fel arfer gyda grwpiau mawr o ddisgyblion.

TABL 1

| **1** | **2** |
|---|---|
| Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg | Cynnydd neu leihad o fwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Mae o leiaf 20% ond dim mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg | Cynnydd neu leihad o fwy na 20% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg |
| Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Mae mwy nag 80% o'r addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhywfaint o addysgu yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg | Cynnydd o fwy na 10% yn yr addysgu sy'n cael ei gynnal drwy gyfrwng y Saesneg |
| Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Cynhelir mwy na 10% o'r addysgu drwy gyfrwng y Saesneg |
| Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Saesneg | Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Saesneg |
| Cynhelir rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Ni chynhelir dim addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 2 para. 7(2) wedi eu hamnewid (1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (O.S. 2022/744), rhl. 1(3), **Atod. 2 para. 14(2)(a)(i)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**F2** Geiriau yn Atod. 2 para. 7(2) wedi eu hamnewid (1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (O.S. 2022/744), rhl. 1(3), **Atod. 2 para. 14(2)(a)(ii)**

**F3** Atod. 2 para. 7(3)(a) wedi ei amnewid (1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022 (O.S. 2022/744), rhl. 1(3), **Atod. 2 para. 14(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Atod. 2 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I14** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Cyfrwng iaith – addysg uwchradd*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer—

(a) ysgolion uwchradd,

(b) ysgolion arbennig ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion, ac

(c) ysgolion canol ond dim ond mewn perthynas â darparu addysg uwchradd i ddisgyblion yn yr ysgolion.

(2) Daw newid o fewn y paragraff hwn os yw addysgu disgyblion mewn grwp blwyddyn mewn ysgol yn dod o fewn disgrifiad mewn cofnod yng ngholofn 1 o dabl 2 isod, ac os cynigir newid addysgu'r disgyblion yn y grwp blwyddyn hwnnw fel ei fod yn dod o fewn y disgrifiad yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2.

(3) Yn y paragraff hwn "pwnc perthnasol" yw unrhyw bwnc ar wahân i Gymraeg a Saesneg a addysgir yn yr ysgol i ddisgyblion yn y grwp blwyddyn o dan sylw.

TABL 2

| 1 | 2 |
|---|---|
| Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl | Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir pump neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl | Lleihad o bedwar neu ragor o'r pynciau perthnasol a addysgir (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl | Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir pob pwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i bob disgybl | Addysgir tri neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl |
| Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl |

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

| 1 | 2 |
|---|---|
| bennaf) drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddisgybl | |
| Addysgir un neu ragor o bynciau perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl | Nid addysgir unrhyw bwnc perthnasol (yn gyfan gwbl neu'n bennaf) drwy gyfrwng y Saesneg i unrhyw ddisgybl |

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Atod. 2 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I16** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

## RHAN 3

### YSGOLION CYMUNEDOL, YSGOLION SEFYDLEDIG AC YSGOLION GWIRFODDOL

9 Mae paragraffau 10 i 17 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Atod. 2 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I18** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Newidiadau i fangreoedd*

10 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% neu 200 o ddisgyblion o'i gymharu â chapasiti'r ysgol ar y dyddiad priodol.

(2) Wrth benderfynu cynnydd mewn capasiti at ddibenion is-baragraff (1), mae pob ehangiad a wnaed ar ôl y dyddiad priodol i'w cymryd i ystyriaeth ynghyd â'r ehangiad arfaethedig.

(3) Y "dyddiad priodol" yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) y dyddiad sy'n dod bum mlynedd cyn y dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud unrhyw newid i'r ysgol a oedd yn golygu ehangu ei mangre ac y cyhoeddwyd y cynigon hynny o dan—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(4) Nid yw cyfeiriadau yn y paragraff hwn at ehangu yn cynnwys ehangu dros dro.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 2 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I20** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

11 (1) Ehangu mangre'r ysgol a fyddai'n cynyddu capasiti'r ysgol os yw'r dyddiad y cynllunnir gweithredu'r cynigion i wneud yr ehangiad yn dod o fewn y cyfnod a ddisgrifir yn isbaragraff (2).

(2) Pum mlynedd yw'r cyfnod ac mae'n dechrau ar ddyddiad gweithredu'r cynigion (neu'r dyddiad diweddaraf) sy'n dod o fewn paragraff 13 (lleihau capasiti ysgol).

(3) Nid yw "ehangu" yn y paragraff hwn yn cynnwys ehangu dros dro.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Atod. 2 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I22** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

12 Gwneud ehangu dros dro, a fyddai ar yr adeg y'i gwnaed wedi dod o fewn paragraff 10 (heblaw am y ffaith ei fod dros dro), yn ehangu parhaol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Atod. 2 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I24** Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

13 Newid a wneir i fangre'r ysgol a fyddai'n lleihau capasiti'r ysgol, lle y byddai'r capasiti arfaethedig yn is na'r nifer uchaf o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd cyn y dyddiad y lluniodd y cynigydd ei gynnig i wneud y newid arfaethedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Atod. 2 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I26** Atod. 2 para. 13 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

14 At ddibenion paragraffau 10 i 13—

(a) mae cyfeiriadau at gapasiti ysgol yn gyfeiriadau at nifer y disgyblion y gall yr ysgol drefnu lle ar eu cyfer fel a ddyfernir yn unol â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, a

(b) "ehangu dros dro" yw ehangu mangre ysgol y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Atod. 2 para. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I28** Atod. 2 para. 14 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Atod. 2 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**
**I20** Atod. 2 para. 10 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**
**I21** Atod. 2 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**
**I22** Atod. 2 para. 11 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**
**I23** Atod. 2 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**
**I24** Atod. 2 para. 12 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**
**I25** Atod. 2 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**
**I26** Atod. 2 para. 13 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**
**I27** Atod. 2 para. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**
**I28** Atod. 2 para. 14 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Anghenion **[**[F4]addysgol arbennig**][**[F4]dysgu ychwanegol**]***

15 (1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion **[**[F5]addysgol arbennig**][**[F5]dysgu ychwanegol**]**.

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion **[**[F6]addysgol arbennig**][**[F6]dysgu ychwanegol**]**, newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

**Diwygiadau Testunol**

**F4** Geiriau yn mhennawd Atod. 2 para. 15 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(a)(i)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3
**F5** Geiriau yn Atod. 2 para. 15(1) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(a)(ii)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3
**F6** Geiriau yn Atod. 2 para. 15(2) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(a)(iii)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Atod. 2 para. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I30** Atod. 2 para. 15 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Trefniadau derbyn*

16 Cyflwyno trefniadau derbyn y mae adran 101(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (bandio disgyblion) yn gymwys iddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Atod. 2 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I32** Atod. 2 para. 16 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Darpariaeth fyrddio*

17 (1) Cyflwyno darpariaeth ar gyfer llety byrddio neu ei dirwyn i ben.

(2) Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 50 o ddisgyblion neu ragor neu gan 50% neu ragor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Atod. 2 para. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I34** Atod. 2 para. 17 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

## RHAN 4

### YSGOLION ARBENNIG

18 Mae paragraffau 19 i 21 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion arbennig cymunedol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Atod. 2 para. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I36** Atod. 2 para. 18 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Cynnydd yn nifer disgyblion*

19 (1) Ac eithrio pan fo ysgol wedi ei sefydlu mewn ysbyty, cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a fyddai o'i gymryd ynghyd â phob cynnydd blaenorol ar ôl y dyddiad priodol, yn cynyddu nifer y disgyblion gan o leiaf 10% neu gan y nifer perthnasol o'i gymharu â nifer y disgyblion ar y dyddiad priodol.

(2) Yn y paragraff hwn—

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

y "dyddiad priodol" ("*appropriate date*") yw'r diweddaraf o'r canlynol—

(a) 19 Ionawr 2012;

(b) y dyddiad pan dderbyniodd yr ysgol ddisgyblion gyntaf;

(c) dyddiad (neu ddyddiad diweddaraf) gweithredu cynigion i wneud newid i'r ysgol i gynyddu nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer ac y cyhoeddwyd y cynigion hynny o dan y canlynol—

(i) adran 48, 59, 68 neu 72, neu

(ii) adran 31 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 neu baragraff 5 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno; ac

"y nifer perthnasol" ("*relevant number*") mewn perthynas â nifer y disgyblion mewn ysgol yw—

(a) pan fo'r ysgol yn darparu llety byrddio yn unig, 5, a

(b) ym mhob achos arall, 20.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Atod. 2 para. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I38** Atod. 2 para. 19 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Darpariaeth fyrddio*

20 Newid y ddarpariaeth ar gyfer llety byrddio fel bod y nifer o ddisgyblion y gwneir darpariaeth o'r fath ar eu cyfer yn cael ei gynyddu neu ei leihau gan 5 disgybl neu ragor.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Atod. 2 para. 20 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I40** Atod. 2 para. 20 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Darpariaeth anghenion **[**F7 addysgol arbennig**][**F7 dysgu ychwanegol**]***

21 Newid yn y math o anghenion **[**F8 addysgol arbennig**][**F8 dysgu ychwanegol**]** y trefnwyd yr ysgol i wneud darpariaeth ar ei gyfer.

**Diwygiadau Testunol**

**F7** Geiriau yn mhennawd Atod. 2 para. 21 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(b)(i)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**F8** Geiriau yn Atod. 2 para. 21 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(b)(ii)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6,

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** Atod. 2 para. 21 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I42** Atod. 2 para. 21 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

## RHAN 5

### YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR

22 Mae paragraffau 23 i 25 yn disgrifio newidiadau rheoleiddiedig mewn perthynas ag ysgolion meithrin a gynhelir.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** Atod. 2 para. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I44** Atod. 2 para. 22 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Y man addysgu*

23 (1) Ehangu'r man addysgu, ac eithrio ehangu dros dro, gan 50% neu fwy.

(2) Gwneud ehangu dros dro y man addysgu gan 50% neu fwy yn ehangu parhaol.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "man addysgu" ("*teaching space*") yw unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer darparu addysg feithrin ac eithrio'r canlynol—

(a) unrhyw fan a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer addysg disgyblion y mae eu hanghenion addysgol yn cael eu **[**[F9]hasesu o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig a gedwir o dan adran 324 o'r Ddeddf honno**][**[F9]penderfynu o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a disgyblion â chynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan y Ddeddf honno**]**;

(b) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn y fath fodd nad yw'n addas at ddibenion addysgu cyffredinol;

(c) unrhyw fan a gafodd ei adeiladu, ei addasu neu ei drefnu yn bennaf ar gyfer storio cyfarpar, offer neu ddeunyddiau a ddefnyddir wrth addysgu;

(d) unrhyw ran o ardal y mae ei hangen ar gyfer symudiad disgyblion drwy'r ardal honno ac a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben hwnnw;

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

"ehangu dros dro" ("*temporary enlargement*") yw ehangu man addysgu y rhagwelir y bydd yr ehangiad, ar yr adeg y'i gwneir, yn ei le am lai na thair blynedd.

**Diwygiadau Testunol**

**F9** Geiriau yn Atod. 2 para. 23(3)(a) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(c)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Atod. 2 para. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I46** Atod. 2 para. 23 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Anghenion **[**F10addysgol arbennig**][**F10dysgu ychwanegol**]***

24 (1) Sefydlu darpariaeth neu ddirwyn darpariaeth i ben a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion **[**F11addysgol arbennig**][**F11dysgu ychwanegol**]**.

(2) Os oes darpariaeth a gydnabyddir gan yr awdurdod lleol yn ddarpariaeth a gadwyd yn ôl ar gyfer plant ag anghenion **[**F12addysgol arbennig**][**F12dysgu ychwanegol**]**, newid yn y math o'r cyfryw ddarpariaeth.

**Diwygiadau Testunol**

**F10** Geiriau yn mhwnnawd Atod. 2 para. 24 wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(d)(i)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**F11** Geiriau yn Atod. 2 para. 24(1) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(d)(ii)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**F12** Geiriau yn Atod. 2 para. 24(2) wedi eu hamnewid (1.9.2021 at ddibenion penodedig, 1.1.2022 at ddibenion penodedig, 1.9.2022 at ddibenion penodedig) gan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (anaw 2), a. 100(3), **Atod. 1 para. 22(6)(d)(iii)**; O.S. 2021/373, erglau. 3, 4, 6, 7 (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, ergl. 2); O.S. 2021/1243, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-23) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 2); O.S. 2021/1244, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-21) (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, ergl. 3); O.S. 2021/1245, erglau. 3, 4 (ynghyd ag ergl. 1(4)); O.S. 2022/891, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 4-25); O.S. 2022/892, erglau. 2, 3 (ynghyd ag erglau. 4-18); O.S. 2022/893, ergl. 4; O.S. 2022/894, ergl. 3; O.S. 2022/895, erglau. 3, 4; O.S. 2022/896, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(7), 4-22); O.S. 2022/897, ergl. 3 (ynghyd ag erglau. 1(8), 4-21); O.S. 2022/898, erglau. 2, 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I47** Atod. 2 para. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I48** Atod. 2 para. 24 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

*Cyfrwng iaith*

25 (1) Yn achos ysgol y caiff grwp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg.

(2) Yn achos ysgol y caiff grwp o ddisgyblion ynddi ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, unrhyw newid i'r ysgol fel y byddai pob disgybl yn cael ei addysgu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I49** Atod. 2 para. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I50** Atod. 2 para. 25 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

## RHAN 6

## ATODOL

*Y pŵer i ddiwygio*

26 (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ddiwygio unrhyw ddarpariaeth yn yr Atodlen hon.

(2) Caiff gorchymyn o dan is-baragraff (1) wneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 3 o'r Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I51** Atod. 2 para. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I52** Atod. 2 para. 26 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(f)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/09/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ATODLEN 2 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.